

# Gweithdrefn Cymorth Cyntaf

## Amcan

Mae'r weithdrefn hon yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r ddarpariaeth cymorth cyntaf, sy'n cwmpasu holl safleoedd y coleg a gweithgareddau oddi ar y safle.

## Cyfrifoldeb Deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HASWA) (*adran 2e*) yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i ddarparu gweithle sydd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn ddiogel, heb risgiau i iechyd, ac yn ddigonol o ran cyfleusterau a threfniadau ar gyfer lles yn y gwaith.

Mae Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 1981 yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i wneud darpariaeth ar gyfer cymorth cyntaf yn y gweithle, gan gynnwys:

- adnoddau digonol, ac offer yn seiliedig ar yr asesiad risg.
- Nifer addas o bobl hyfforddedig i gwmpasu holl amseroedd gweithredu'r gweithle.
- Hyfforddiant priodol a hyfforddiant gloywi cyfnodol ar gyfer personau cymorth cyntaf.

## Rhagarweiniad

Mae'n hanfodol bod y coleg yn sicrhau lefelau priodol o ran darpariaeth cymorth cyntaf ar gyfer pob cyfnod gweithredu ym mhob campws. Mae angen i bersonau cymorth cyntaf allu ymateb **yn ôl y galw** pryd bynnag y bydd sefyllfa'n digwydd ar y safle. Mae'n debygol y bydd staff cymorth cyffredinol a staff nad ydynt yn staff addysgu mewn sefyllfa wella i ymateb i sefyllfaoedd cyffredinol na staff â chyfrifoldebau academaidd.

Mae'n ofynnol i rai Staff Academaidd gael cymhwyster cymorth cyntaf i gyflawni eu rolau.

## Trefniadau

### Adnoddau

Bydd blwch cymorth cyntaf sydd wedi'i stocio'n briodol sy'n cydymffurfio â thaflen ganllaw BS8599 yn cael ei ddarparu mewn lleoliad canolog ym mhob safle (y tu ôl i'r dderbynfa yn gyffredinol). Bydd darpariaeth cymorth cyntaf â stoc addas mewn ardaloedd fel gweithdai, labordai, salonau, meithrinfeydd, ystafelloedd ffitrwydd ac adrannau chwaraeon, yn seiliedig ar nodyn cyfarwyddyd BS8599 ac unrhyw offer arbenigol y nodwyd eu bod yn ofynnol oherwydd y risgiau cynhenid a nodwyd yn ystod y broses asesu risg. Ni fydd blychau cymorth cyntaf yn cynnwys unrhyw feddyginiaeth, eli ac ati. Ni ddylai aelodau'r staff roi meddyginiaeth i unrhyw ddysgwyr o unrhyw gyflenwadau personol sydd ganddynt.

Mae Ystafelloedd Cymorth Cyntaf yn Colcot Road (bloc llawr gwaelod B) a Canal Parade (llawr gwaelod). Bydd yr allwedd i ystafelloedd cymorth cyntaf ar gael o'r dderbynfa (Colcot Road) neu gellir mynd i fewn gyda bathodyn staff (Canal Parade).

Mae stociau Cymorth Cyntaf yn cael eu cadw yn yr Ystafell Cymorth Cyntaf yn Canal Parade ac maen nhw'n cael eu rheoli gan y Rheolwr lechyd a Diogelwch. Dylid gwneud ceisiadau am stociau i'r Rheolwr lechyd a Diogelwch drwy e-bost. Technegwyr dynodedig mewn gweithdai, salonau a labordai neu bersonau cymorth cyntaf ar gyfer ardaloedd cyffredinol sy'n gyfrifol am wirio stociau mewn blychau cymorth cyntaf unigol.

Mae Diffibrilwyr Allanol Awtomatig (AEDs) ar gael yn Colcot Road, ICAT, 27 Parade, CISC (Lecwydd) a Canal Parade ac maen nhw wedi'u lleoli y tu ôl i'r Dderbynfa. Bydd AEDs yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y fîm lechyd a Diogelwch i sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio yn ôl y galw.

### **Darpariaeth Cymorth First**

Mae gwasanaeth cymorth cyntaf yn cael ei ddarparu drwy system rota ym mhob safle. Staff ar y rota fydd y staff hynny a fydd yn gallu ymateb **yn ôl y galw** i sefyllfaoedd ar y safle. Mae'n hanfodol bod darpariaeth yn y coleg yn ystod pob awr weithredu ym mhob safle; mae'n ddymunol bod nifer gyfartal o staff gwrywaidd a benywaidd yn cael eu hyfforddi fel personau cymorth cyntaf ac yn cymryd rhan yn y rota. Fel arfer, bydd y staff canlynol yn ffurfio conglfaen y rota:

Inspirational. Inclusive. Influential.  
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.  
[www.cardiffandvalecollege.ac.uk](http://www.cardiffandvalecollege.ac.uk)

<b>Rhif Fersiwn:</b>	1
<b>Rhif Adolygiad:</b>	4
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mawrth 18

- a. Staff Diogelwch a Gofalu o Ystadau;
- b. Technegwyr Gweithdy ar bob safle;
- c. Staff cymorth gweinyddol;
- d. Staff arlwyo.

Bydd rotâu yn cael eu paratoi'n flynyddol gan y fîm Iechyd a Diogelwch a'u hanfon at staff a derbynfydd sy'n cymryd rhan. Bydd y rota'n rhedeg ar sail wythnosol. **Dim ond** staff ar y system rota fydd yn derbyn tâl enwol misol.

Bydd staff y mae disgwyl iddynt fod wedi cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf fel rhan o'u rôl yn darparu Cymorth Cyntaf ar gyfer y dysgwyr maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn unig ac ni fyddant yn rhan o'r system rota gyffredinol.

Bydd darpariaeth Cymorth Cyntaf ym mhrif adeilad Campws Cymunedol Eastern High yn cael ei ddarparu drwy'r ysgol a'i gefnogi pan fo angen gan staff CAVC. Bydd angen i staff CAVC sy'n defnyddio'r adeilad hwn gysylltu â'r brif dderbynfa i ofyn am Gynorthwydd Cyntaf.

### **Hyfforddiant**

Bydd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn trefnu hyfforddiant priodol i bersonau Cymorth Cyntaf yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r lefel risg a nodwyd. Bydd y Coleg yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o reoli Cymorth Cyntaf gan ddefnyddio cymysgedd o bersonau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (FAW) mewn ardaloedd lle mae risg ganolig i uchel a phersonau Cymorth Cyntaf Brys (EFAW) mewn safleoedd lle mae risg isel. Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu fel a ganlyn:

Person Cymorth Cyntaf yn y Gwaith - Cwrs hyfforddiant 3 diwrnod cychwynnol

- Hyfforddiant gloywi 2 ddiwrnod (bob 3

blynedd)

Person Cymorth Cyntaf Brys - Cwrs hyfforddiant 1 diwrnod cychwynnol

- Hyfforddiant gloywi 1 diwrnod (bob 3 blynedd)

Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal gan ddefnyddio Hyfforddwr Cymorth Cyntaf yn y Gwaith a gymeradwywyd gan yr HSE neu gorff dyfarnu achrededig yn unol â chanllawiau Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981 (fel y'i diwygiwyd) (H&SFAR1981). Bydd y meysydd sy'n cael sylw mewn hyfforddiant fel y nodir yn Atodiad 5, Atodiad 6 ac Atodiad 7 o'r (H&SFAR1981).

<b>Rhif Fersiwn:</b>	1
<b>Rhif Adolygiad:</b>	4
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mawrth 18

Yn ogystal â'r gofynion statudol ar gyfer hyfforddiant, bydd hyfforddiant gloywi ychwanegol yn cael ei gynnig i bob person cymwysedig yn ystod diwrnodau datblygu staff gan sicrhau bod pob person Cymorth Cyntaf yn cael cyfle i ddiweddarau a chynnal eu sgiliau.

Yn ystod hyfforddiant FAW ac EFAW, bydd egwyddorion defnyddio AED yn cael eu cynnwys; bydd hyfforddiant manylach penodol ar gyfer defnyddio AEDs yn ddiogel yn cael ei gynnig i staff allweddol a nodwyd drwy'r broses asesu risg.

## Delio â Materion Cymorth Cyntaf

Bydd y Swyddog Cymorth Cyntaf ar ddyletswydd ar gyfer yr Wythnos ar bob safle yn rhoi manylion cyswllt i'r dderbynfya berthnasol fore Llun ar yr wythnos ddyletswydd. Lle y bo'n bosibl, defnyddir radios, yn enwedig yn y safleoedd mwy. Dylid cyflwyno pob cais am gymorth cyntaf i'r dderbynfya drwy'r rhifau argyfwng perthnasol, a fydd wedyn yn cysylltu â'r person Cymorth Cyntaf ar alwad i fynychu'r digwyddiad. Penderfyniad y Prif Swyddog Cymorth Cyntaf fydd a oes angen cymorth meddygol pellach neu a allant ddelio â'r sefyllfa eu hunain. Bydd y swyddog cymorth cyntaf sy'n mynychu'r digwyddiad yn pennu difrifoldeb yr anaf a bydd yn nodi'r camau priodol i'w cymryd;

1. Mae'n ofynnol i ambiwlans gludo'r person a anafwyd i'r ysbyty.

Os bydd dysgwr neu aelod o staff yn cael ei gludo i'r ysbyty o'r Coleg, dylid hysbysu ei berthynas agosaf, rhieni neu warcheidwaid (oni bai bod rheswm arwyddocaol dros beidio â gwneud hynny). Efallai y bydd angen oherwydd natur yr anaf, oedran, natur fregus neu ar gais y claf, i aelod o staff fynd gyda nhw i'r ysbyty. Gellir gadael dysgwyr yng ngofal personél yr ysbyty, ond mae angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r perthynas agosaf.

2. Nid oes angen triniaeth ysbyty ar unwaith ar yr anaf, ac eto, byddai archwiliad ysbyty yn ddoeth neu nid yw'r person a anafwyd yn teimlo'n ddigon da i aros yn y coleg.

Yn y lle cyntaf, bydd y swyddog cymorth cyntaf yn hysbysu'r HOD a fydd yn gofyn i'r cyswllt cartref dynodedig ddod i gasglu'r person a anafwyd. Os na fydd y cyswllt cartref dynodedig ar gael, bydd yr HOD yn gwneud y trefniadau trafniadaeth angenrheidiol h.y. defnyddio

<b>Rhif Fersiwn:</b>	1
<b>Rhif Adolygiad:</b>	4
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mawrth 18

cludiant coleg neu Dacsi. **Ni ddylai staff ddefnyddio eu cerbydau eu hunain at y diben hwn o dan unrhyw amgylchiadau.**

Mae canllawiau diogelu ar gyfer Dysgwyr o dan 18 mlwydd oed neu oedolyn agored i niwed sy'n cael eu cludo o'r safle yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf un aelod o staff fynd gyda nhw os byddant yn mynd gyda Thacsi neu ddau aelod o staff os yw'r Coleg yn cludo.

Er y dylid galw swyddog cymorth cyntaf bob amser, nid oes angen aros i gynorthwydd cyntaf gyrraedd cyn galw ambiwlans.

## Cymorth Cyntaf ar Ymweliadau Addysgol

Rhaid i berson Cymorth Cyntaf yn y Gwaith cwbl gymwys fynd ar bob ymweliad addysgol risg uchel. Rhaid mynd â phhecyn Cymorth Cyntaf sydd wedi'i gyflenwi'n addas ar bob ymweliad addysgol risg uchel.

## Diogelu Swyddogion Cymorth Cyntaf

Lle bynnag y bo'n bosibl, ni ddylid gadael y person Cymorth Cyntaf ar alwad ar ei ben ei hun gyda pherson a anafwyd. Lle mae angen ymdrin â materion sensitif, a all fod naill ai ymwneud â diwylliant, rhywedd neu iechyd meddwl, rhaid i berson o'r rhyw arall fynd gyda'r person Cymorth Cyntaf i ddiogelu'r person a anafwyd a'r person Cymorth Cyntaf. Efallai y bydd rhai pobl am gael eu trin gan rywun o'r un rhyw, mewn achosion o'r fath dylai dau berson o'r rhyw priodol fod yn bresennol.

Mae gan y Coleg nifer o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac agweddau eraill ar gymorth i les, lle bynnag bydd problem yn codi a bod amheuaeth o faterion iechyd meddwl dylai staff gysylltu â'r Tîm Teimlo'n Ddiogel.

## Adrodd am Ddigwyddiadau

Bydd angen adrodd am ddigwyddiadau sydd angen Cymorth Cyntaf p'un a yw'n ddamwain neu'n ddigwyddiad yn ymwneud ag iechyd gwael ar Ffurflen Adrodd ar Ddigwyddiadau a Damweiniau'r Coleg (AI/1) sydd ar gael ar safle Iechyd a Diogelwch mewnwyd y Coleg. Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi at Swyddog/Rheolwr Iechyd a Diogelwch y safle perthnasol.

Inspirational. Inclusive. Influential.  
Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.  
[www.cardiffandvalecollege.ac.uk](http://www.cardiffandvalecollege.ac.uk)

<b>Rhif Fersiwn:</b>	1
<b>Rhif Adolygiad:</b>	4
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mawrth 18



Cardiff and Vale College  
Coleg Caerdydd a'r Fro

**Dyddiad cymeradwyo:** **Mawrth 2018**

---

**Cymeradwywyd gan:** **Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**

---

**Dyddiad adolygu:** **Mawrth 2020**

---

**Rheolwr Cyfrifol:** **Rheolwr Iechyd a Diogelwch**

---

**Arweinydd Gweithredol:** **Prif Swyddog Gweithredu**

---

**Hygyrch i Fyfyryr: :** **Ydy**

---

<b>Rhif Fersiwn:</b>	1
<b>Rhif Adolygiad:</b>	4
<b>Dyddiad Adolygu:</b>	Mawrth 18